Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 1


# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 12 MAI 2019 50c


# SCOUSE / SCOWS

## Arddangosfa Lluniau ym Mhenbedw

Llongyferchir Miriam Parry o Brifysgol John Moores am drefnu arddangosfa o Gymry Lerpwl y dyddiau gynt yn Oriel Rathbone, Argyll Street, Penbedw. Aeth nifer dda o Gymry'r Glannau i weld yr arddangosfa hon a chael mwynhad. Dylid cael arddangosfa yn fuan eto.



*Miriam Parry o flaen rhai o luniau Scouse/Scows.*
*Diolcha Miriam Parry i bawb a anfonodd lun trwy ei llythyr yn yr Angor*



*Gwnaed cyfweliad gan Gwmni Tinopolis, Llanelli gyda Mirian a D. Ben Rees (hanesydd Cymry) Lerpwl. Dangoswyd ef ar Heno - 12 Mawrth*



*Gair am y lluniau –*
*llu o luniau Meuryn y bardd ar y mur*



*Rhodri yn holi Dr. D. Ben Rees*

*Lluniau gan John G. Williams*

**YN Y RHIFYN HWN -**


Golygyddol Rhif 400.
Gwledd yn Woolton ar Noson Gŵyl Ddewi.
Newyddion o Bethel, Cymry Birkenhead, Bethania, Cymry Lerpwl a Manceinion.
Dydd Gweddi Byd Eang. Myfyrdod a mwy.

Golygyddol

# *Golygyddol Rhif 400 – Anhygoel ac Anghyffredin – gan D. Ben Rees*

Meddyliais i erioed, erioed yn 1979, ynghanol y flwyddyn, wrth ysgrifennu y Golygyddol cyntaf y byddwn i yn nechrau Ebrill 2019 yn ysgrifennu Rhif 400. Ni chafwyd rhifyn o'r *Angor* heb ei Olygyddol, er fod ambell un yn ddigon bach o ran maint, ond yn aml lleinw y Golygyddol dudalen gyfan y blynyddoedd diwethaf hyn. Anamal y mae'r Golygyddol y blynyddoedd hyn yn codi gwrychyn neb, mae'n amlwg fod pawb yn cytuno, neu yn ofni mynegi ei hunain a chyn iddynt fynd ati i lunio llythyr, y rhifyn nesaf wedi cyrraedd!!

Ond un peth y mae'n rhaid ei bwysleisio yw y bu'n rhaid i mi frwydro'n galed i gael *Yr Angor* yn rhan o'n bywyd o fis i fis. Roedd hi'n gwbl amlwg nad oedd dyhead mawr ymhlith cynheiliaid y *Bont* i drosglwyddo y cylchgrawn i ddwylo neb arall, a'r dewis oedd gennym oedd peidio â chael dolen gyswllt i'n cysylltu ni fel cymunedau Cymraeg o Southport i Ellesmere Port ac o Runcorn i West Kirby. Erbyn heddiw diflannodd pob un o'r cymunedau Cymraeg a nodwyd, Southport, Ellesmere Port, Runcorn a West Kirby. Nid oes tystiolaeth Cymraeg yn dim un o'r trefydd a nodais, ac yn 1979 ceid cymunedau Cymraeg yn Whiston, Wallasey, Huyton, Ashton-in-Makerfield a St. Helens Junction. Ciliodd y rhain i gyd ac eto fe lwyddwyd i gael rhifyn ar ôl rhifyn o'r papur bro i'n dwylo gan fod gan y bobl galon i weithio a'n bod wedi ein bendithio gyda Trysoryddion gwerth ei hadnabod.

Am flynyddoedd lawer disgwyliai yr argraffydd gael ei dalu y diwrnod y deuai'r papur bro oddi ar y peiriannu. Yn arferol rhoddir 30 o ddiwrnodau i dalu y bil, ond na disgwylid y tâl y diwrnod y deuai y papur yn barod i'w baratoi yn barselau yn Y Bala. Yr unig gwmni oedd yn barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hwn oedd Gwasg Cyhoeddiadau Modern a sefydlwyd gennyf yng Nghwm Cynon yn 1963 ac sydd newydd gyhoeddi cyfrol ddifyr, *A Oes Heddwch*, yn 2019 o waith yr ysgolhaig Dr. Pat Williams. Mewn bythefnos i dair wythnos byddwn yn trosglwyddo'r swm i'r Trysorydd a chael ein talu gyda throad y post!

Talwn wrogaeth i'n Trysoryddion. Pwy oeddynt? Criw diddorol. Hen lanc oedd y cyntaf T. M. Owens a briododd yn ystod ei Drysoryddiaeth. Un o Drysoryddion Capel Bethel ydoedd ar ôl yr uniad a chyfrifydd o ran galwedigaeth. Delfrydol i'r swydd. Yn 1987 bu newid yn nhalgyrch *Yr Angor*. Yn ystod gweinidogaeth y Parchedig Geraint Roberts ym Manceinion, cawsom gyfle i bontio'r gagendor rhwng Cymry'r ddwy ddinas a chael cymorth amhrisiadwy. Deil felly. Trosglwyddodd T. M. Owens, Aigburth y Drysoryddiaeth i J. Alun Edwards, Blundellsands. Roedd hi'n hyfrydwch darllen llithiau y Trysorydd newydd a chyflawnodd waith arbennig yn perswadio Henaduriaeth Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Cymru i noddi dwy dudalen ym mhob rhifyn. Ar ôl dyddiau Alun, cawsom gyfraniad Gareth Thomas, Rhuthun bellach, bargyfreithiuwr a fu'n Aelod Seneddol Llafur Gorllewin Clwyd. Aeth gwleidyddiaeth a'i fryd ac ysgwyddodd Gwynfryn Williams, Gateacre y gwaith cyn symud ef a'i briod i Chwilog. Un o gymeriadau lliwgar Cymry Manceinion a fu'n Drysorydd oedd yr annwyl Ron Gilford a ni fu neb yn fwy ffyddlon nag ef i'n cyfarfyddiadau yn Lerpwl.

Yna 16 mlynedd yn ôl buom yn hynod o ffodus o gael Roderick Owen, Allerton yn Drysorydd, ac ef a'i briod Norma sydd yn gofalu dod a'r papur bro o Benllyn i Lerpwl. Dyna ein Trysoryddion.

Beth am Cadeiryddion? Yn y Pwyllgor cyntaf syrthiodd y cyfrifoldeb arnaf cyn imi drosglwyddo y cyfrifoldeb yn 1982 i Alun Roberts, Woolton. Dilynwyd ef am flynyddoedd lawer gan E. Goronwy Owen, Calderstones, a chawom ŵr hirben a doeth wrth y llyw. Dilynwyd ef gan Hywel Jones, Cilgwri am gyfnod byr, cyn i Dr. John G. Williams gymeryd at yr awenau. Ers 29 mlynedd cawsom luniau gwerth eu cael gan Dr. John Williams, rhywbeth prin iawn yn ystod teyrnasiad y ddau papur *Y Glannau* a'r *Bont*. Bellach cawn ddwy dudalen mewn lliw ym mhob rhifyn.

Yna'r Ysgrifenyddion. O 1979 i 1990 bu'r Ysgrifenyddiaeth yn nwylo'r hanesydd, y Parchedig Ieuan A. Jenkins, Waterloo a dilynwyd ef gan Mr. Ken Williams, Gateacre. Cyn ei ddyddiau ef bu Mr Rolly Pritchard yn ddosbarthwr ac fe'i dilynwyd gan John Alun Hughes, Kensington a William Evans, Anfield wrth y gwaith. Fi oedd yn casglu'r *Angor* o'r Bala y blynyddoedd hynny ac ar fy ffordd yn ôl yn gadael parsel Penbedw gyda Walter a Mair Rees Jones, cyn mynd ymlaen i Romer Road at John Alun a'i briod, ac ar ôl hynny i Dulas, Oakfield at William a Mavis Evans gyda'r parselau eraill.

Golygai'r *Angor* gymaint i ni. Bu yn rhan bwysig o'n bywydau. Anfonodd Ken Williams gannoedd o'r *Angor* trwy'r post, tra mae Ben Hughes, Childwall, ysgrifennydd diwyd Pwyllgor Gwaith *Yr Angor* wedi anfon miloedd o gopiau trwy'r post, o leiaf 1,200 y flwyddyn. Haedda ein cydnabyddiaeth didwyll fel y gwnai pawb a fu ar y Pwyllgor Gwaith o 1979 i 2019.

Yn y gyfrol newydd a ddaw allan yn y Cinio (Gorffennaf 20, 2019) gwelir lluniau aelodau y Pwyllgor Gwaith dros y blynyddoedd a'r rhai sydd yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith heddiw.

Y mae lle i 80 ohonom yn y Cinio a bydd y tocynnau ar werth gan y Cadeirydd Dr. John G. Williams ar 1 Mai 2019, pris £25. Gwahoddwn ddeuddeg o wahoddedigion ac edrychwn ymlaen at y penwythnos arbennig iawn pan y cawn gyfle i rannu profiadau a diolch am lafur cymeradwy pob un ohonom o'r Golygydd i gynllunydd *Yr Angor*, y diweddar annwyl E. Edmund Clarke (Garston) ac i gysodydd *Yr Angor* ers 32 mlynedd, Aeron Jones, Llanuwchllyn, i'r rhai y gallaf ddibynnu arnynt o fis i fis, fel Elwyn Parry, Caerffili (Myfyrdod), Dr. Pat Williams (Llenorion a Beirdd Cyfoes), Mrs Nan Hughes Parry (Bethel), Beryl Williams (Cymdeithas Cymry Lerpwl), Mrs Mair Rees Jones (Salem), Mrs Eirwen Sergeant (Cymdeithas Cymry Birkenhead), Elwyn Evans (Noddfa) a'r Parchedig Eleri Edwards, (Cymry Manceinion a'r Cyffiniau). Bu Mair Jones (Childwall) yn aelod o'n Pwyllgor Gwaith ers hir flynyddoedd, a daw aelodau o Cilgwri a Manceinion atom o hyd i'r Pwyllgor Gwaith. Croesawn yn ein tro Mrs Mair Rees Jones a Mrs Olwen Jones o Cilgwri, Anne Hunt, Elwyn a Eflyn Evans, Didsbury a'n Haelod am Oes, Lois Murphy ynghyd a'r bugeiles, Eleri Edwards. Cawn ei gweld hwy oll yn ein Gŵyl ym mis Gorffennaf ac mae ein diolch yn fawr i'r haelionus rai sydd yn rhoddi rhoddion blynyddol, ac eleni cawsom £750 o Ddydd Golff Cymry Lerpwl. Braf yw cofnodi hyn i gyd, diolch am y gefnogaeth, a chofiwch ddod i'r Ŵyl, ie ***Gŵyl Yr Angor*** ydyw hi, eich Gŵyl chwi ein darllenwyr.

Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 3

# DIWRNOD GWEDDI BYD EANG

**Cynhaliwyd gwasanaeth Diwrnod Gweddi Byd-eang 2019 yng Nghapel United Reformed, Lerpwl ar ddydd Gŵyl Dewi a bu dwy o Gymry Lerpwl yn cymeryd rhan.**

**Thema'r oedfa oedd 'Gwahoddiad – Dewch'. Ac i alluogi'r ymateb - mae popeth yn barod. Dewch i ganmol, diolch, a chyhoeddi teyrnas cariad.**

**Paratowyd y gwasanaeth gan ferched Slovenia. Mae'r gwahoddiad wedi'i seilio ar y ddameg a ddywedodd Iesu am ginio gwych a fynychwyd gan y rhai a alwyd oddi ar y strydoedd, gan fod y rhai a wahoddwyd yn esgusodi eu hunain. Nid yw'r gymuned a ffurfiwyd o amgylch y bwrdd yn ddigon i lenwi'r tŷ - mae lle o hyd. Pwy sydd ar goll o'r bwrdd yn ein cymuned? Dyma gwestiwn y byddai Dewi Sant wedi gofyn i'w gynulleidfaoedd.**



***Dydd Gweddi Byd Eang***



***Y gwahoddiad i ddod i'r wledd***



***Bisgedi traddodiadol Slovenia***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mehefin 2019** erbyn bore Mercher, 1 Mai, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Gorffennaf 2019 –** erbyn bore Sadwrn, 1 Mehefin, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch ar 3 Mehefin, 2019.
- **Rhifyn Awst/Medi 2019** – erbyn bore Llun, 1 Gorffennaf, gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Llun am 1.30 o'r gloch.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau'r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf, 2019.***
- ***Y rhifyn hwn Mai 2019 yw y rhifyn olaf o Gyfrol 40, ac felly gair byr o'r Trysorydd i'ch atgoffa i anfon eich tanysgrifiadau am 2019/20 iddo ef, rywdro ar ôl 1 Mai, 2019. Penblwydd hapus i'r Angor ar gyrraedd 40 oed!!***

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Braf oedd derbyn y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn *Etifeddiaeth* sydd yn lais cyfoes dros Gymdeithas Dydd yr Arglwydd a gweld ein bod fel eglwys wedi cyfrannu unwaith eto am 2018. Gwelir enw Bethania a hefyd enwau ein Gweindog, Marian a John Lyons fel rhoddwyr i'r achos teilwng. Yn y dyddiau sydd ohoni y mae cymaint o elusennau yn dibynnu yn gyfangwbl am gymorth ymarferol, ariannol oddi wrth ein capeli a'n eglwysi. Edrychwn ymlaen i Oedfa Comisiynu ein Cynorthwy-ydd Bugeiliol ym Methel ar bnawn Sadwrn, 4 Mai am 2 o'r gloch, deallwn fod y Cyfarfod Gollwng ar 31 Mawrth yng Nghapel y Groes wedi mynd yn dda iawn o dan lywyddiaeth y Parchedig Eirlys M. Gruffydd-Evans, yr Wyddgrug, Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain. Da deall fod yr Henaduriaeth gyfan yn ymweld â dinas Lerpwl ar bnawn Mercher, 22 Mai am 4.30. Eisteddiad ac ymddiddan â'r rhai sydd i'w hordeinio, ac am 7.00 Eisteddiad arall yng Nghapel Bethel, Heathfield Road. Bydd toriad i gael paned o 6.00 i 6.55 o'r gloch. Croeso i'r bws a ddaw o Siroedd Fflint, Dinbych a Wrecsam.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Deued ar Ddygwyl Dewi – alwad fawr*
*I'n gwlad fach eleni:*
*Neges i'm calonogi,*
*A throi'n nerth a her i ni.*

meddai'r bardd Tilsli.

Roedd ein dathliad Gŵyl Ddewi ar Nos Wener, Mawrth 1af yng Nghlwb Golff Woolton yn godiad calon. Daeth cynulliad da ynghyd i ddathlu ein nawddsant, y byrddau wedi eu hulio'n chwaethus iawn gyda'r ddraig goch a chennin Pedr yn amlwg, y pryd bwyd o safon uchel ac at ddant pawb.

Y Parchedig Ddr. D. Ben Rees oedd llywydd y noson a chyflwynodd y gŵr gwadd i ni – Aled Lewis Evans, Wrecsam fel un adnabyddus, un annwyl a chymeradwy, yn llenor, bardd (ŵyr y Prif-fardd John Evans, Llanegryn), athro, pregethwr, tiwtor yn y Gymraeg ac yn ffrind i ni yma ar y Glannau.

Testun ei sgwrs oedd geiriau Dewi Sant – "Byddwch lawen, cadwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain"

Beth yw ystyr Mawrth y 1af? Oes ffydd ganddom fel Cymry cefnogol i warchod ein hetifeddiaeth yn amgylcheddol a diwylliannol, a throsglwyddo yr egwyddorion hynny i eraill? Cofiwn am arwydd yr Urdd – 'ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn, i Grist'. Allwn ni gadw neges Dewi yn fytholwyrdd?

Tybed a fydd milwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd Aled yn ffyddiog – rydan ni ar y ffordd yn y Gogledd Ddwyrain oedd ei optimistiaeth. Caru cyd-ddyn – ydan ni wedi dysgu sut i ymddwyn tuag at ein gilydd o Yemen i Paris?

Bu sefydlu yr Eisteddfod Cydwladol Llangollen yn 1947 yn gam mawr ymlaen. Roedd gweld yr ymwelwyr hynny yn eu gwisgoedd traddodiadol yn cystadlu yn y canu a'r dawnsio a chôr o'r Almaen yn rhan o'r dod ynghyd. Arwydd arall i godi calon. Rhaid dysgu cyd-fyw, parchu eraill. Rydan ni i gyd angen angor a bod yn angor i eraill. Mae bod yn ffyddlon i Grist yn dysgu ni sut i ymddwyn tuag at eraill. Rhaid i ni fel eglwysi a chapeli symud ymlaen a newid ein ffurf, torri cwys ein hunain i agor drysau, a chofleidio y dieithr berson. Daw tyfiant eto drwy'r ifanc i ymestyn allan a chreu patrwm newydd ar gyfer ein cyfnod. Mae cariad yn trechu, drwy wneud y pethau bychain yn enw Crist.

Diolchodd Dr. Pat Williams am noson mor ardderchog a ddarparwyd ar ein cyfer, i Dr. Rees am lywyddu, i'n gŵr gwadd Aled Lewis Evans ac i Gwenfyl Bain (Mossley Hill) a Lilian Coulthard (Aigburth) am yr holl drefniadau sydd yn haeddu canmoliaeth y ddwy gymdeithas, Cymry Lerpwl a Chymdeithas Lenyddol Lerpwl (Bethel).


Ar **Nos Lun, Mawrth 11eg** cafwyd darlith yn y Gymdeithas Lenyddol gan Dr. Bleddyn Owen Huws, uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar y testun – "T. H. Parry-Williams yng nghysgod y Rhyfel Mawr". Bu T. H. Parry-Williams yn ddarlithydd dros dro yn yr Adran Gymraeg yn Aberystwyth yn y cyfnod 1914-1919. Roedd yn amser anodd iawn iddo yn bersonol ac yntau yn wrthwynebydd cydwybodol, a'i dri brawd wedi ymuno â'r fyddin o'u gwirfodd. Pan ymgeisiodd am hen gadair Syr Edward Anwyl, gwrthodwyd honno iddo, a thybed a oedd hyn yn gosb am ei heddychiaeth?

Bu hyn yn siom iddo, a phenderfynodd yn 1919 fynd ar drywydd gwahanol, newid cyfeiriad yn gyfangwbl, a mynd i astudio meddygaeth. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn y corff a'r meddwl a chai fynd i theatr yr ysbyty i wylio llawdriniaethau yn yr ysbyty yng Nghaerdydd.

Ond, daeth drws agored iddo yn y diwedd a derbyniodd Gadair yr Iaith Gymraeg a T. Gwynn Jones, Cadair Llenyddiaeth Gymraeg.

Dyma eiriau o eiddo T. H. Parry-Williams mewn cyfweliad gyda Aneirin Talfan Davies, y BBC –

"Nid wyf byth wedi bod yn sicr fy



Dr. Bleddyn Owen Hughes a Dr. D. B. Rees yn cofleidio'r gyfrol bwysig



Goronwy a Joyce Humphreys

Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 5

meddwl a wneuthum y peth iawn ai peidio wrth roi gorau iddi, petai waeth am hynny erbyn hyn."

Roedd yn ŵr galluog gyda meddwl dadansoddol a'r ysfa ynddo i ddefnyddio ei ddwylo ac i fod yn lawfeddyg ac i gyffwrdd â dynoliaeth yn eu anghenion.

'Profiad gwirioneddol wych i mi', meddai, a geiriau Dr. Emyr Wyn Jones amdano oedd hyn, bu dewis iaith o flaen byd y meddyg "yn golled fawr i feddygaeth. Mi fyddai wedi gwneud ffisigwr mawr."

Roedd llyfr Dr. Bleddyn Owen Huws ar werth ar y noson 'Parry-Williams - pris cydwybod', a gwerthwyd pob copi.

Roedd hon yn ddarlith odidog ag ôl gwaith ymchwil manwl, yn gyflwyniad medrus ar fywyd un o fawrion y genedl, a diflanodd yr awr fel y gwynt. Diolch i Dr. D. Ben Rees am ei wahodd, ei gyflwyniad a mynegi gwerthfarwogiad o'r noson ac i Gwenfyl a Lilian am y baned ar y diwedd a chyfle i gael sgwrsio gyda Dr. Bleddyn a'i wraig Delyth oedd wedi mwynhau eu hamser yn Lerpwl. Bleddyn yn gynnyrch Dyffryn Nantlle a Delyth o odre Ceredigion. Melys oedd y sgwrsio, gobeithio y cawn ei wahodd yn ôl yn 2020!

Ar y **nos Lun, Mawrth 25** rhoddwyd darlith yn y Gymdeithas Lenyddol gan Mr. Goronwy Humphreys o Wallasey, cynnyrch Cymraeg y Glannau. Llywyddwyd y noson gan Miss Mair Powell a balch oeddem i gyd o'i gweld. Roedd hi'n adnabod Goronwy a'i deulu'n dda gan iddo gael ei eni a'i fagu i deulu Cymraeg yn Wallasey. Bu ei fam yn chwarae'e organ yng nghapel Fitzclarance a Rake Lane fel ag y bu yntau ei hun, a bu dwy o'i chwioryddd yn ffrindiau da i Mair.

Ei destun oedd 'Caneuon Cymraeg?' Paham y marc cwestiwn? Cwyd amheuaeth yn syth! Mae llawer iawn o'r hen alawon Cymreig wedi eu plethu o draddodiadau cerddorol o wahanol wledydd – hyd yn oed yr emyn dôn 'Olwen', a chaneuon gwerin fel rhai a ganodd Bob Roberts, Tai'r Felin. Ceir tinc Americanaidd o waith gŵr o Fethesda a ymfudodd yno yn y gân boblogaidd 'Moliannwn'. Gwelwyd llun o Arfon Williams ar y sgrin yn canu caneuon gwerin a dylanwad y neuaddau cerddorol arnynt. Llwyddodd y darlithydd i ddod o hyd i ddyddiadur Benjamin Thomas, Vermont. Ceir gweld hwn yn yr Amgueddfa.

Bu cyfraniad Dr. Joseph Parry yntau wrth drefnu cyngherddau i gasglu arian amser streic yn chwarel y Penrhyn ac ymfudiad y cneifwyr i Awstralia ar y Great Nothern Line wedi ychwanegu at y gymysgedd ryfedd o alawon ar ein caneuon.

Difyr a diddorol oedd gwrando ar Goronwy yn trin a thrafod ei destun. Diolchwyd iddo ef a'i briod Joyce, gan Mair a Dr. D. Ben Rees.

Ein diolch hefyd i Lilian a Gwenfyl yn paratoi paned i ni yn ôl eu harfer fel cymdeithas ac hefyd i ddosbarth y dysgwyr. Gwneir y cyfan mor ddi-drafferth.

Anfonwn ein dymuniadau da at yr oll o'r aelodau sydd yn methu dod atom i'r capel ar hyn o bryd ac i'r rhai hynny sydd mewn cartrefi gofal a diolch i'r aelodau hynny sydd yn ymweld â hwy yn gyson. Bendith arnoch i gyd. Edrychwn ymlaen i Oedfa Comisiynu y Parchedig Robert Parry ar 4 Mai ym Methel.

**HENADURIAETH Y GOGLEDD DDWYRAIN O EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**

------

Cynhelir

**CYFARFOD COMISIYNU CYNORTHWY-YDD GWEINIDOGAETHOL,**

sef y

**Parchedig**

**ROBERT PARRY,**

**B.D., B.Mus., Wrecsam**

i eglwysi Cymraeg y Presbyteriaid yn Nosbarth Lerpwl

**ar bnawn Sadwrn, 4 Mai 2019**

**am 2 o'r gloch.**

**Llywydd:**

Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans., B.A.,B.Th.,M.Add., Wyddgrug

***Hanes yr Alwad***

gan y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, B.Th., Wyddgrug

Cymerir rhan gan eraill o'r enwad, yr Henaduriaeth a'r Dosbarth.

*Darperir lluniaeth yn y Ganolfan ar derfyn yr oedfa*

## Capel Seion, Laird Street, Penbedw

Nos Wener, y cyntaf o Fawrth, cawsom noson arbennig o bleserus yn dathlu gŵyl ein nawdd Sant yn y Grove House Hotel, Wallasey dan nawdd Cymdeithas Cymry Birkenhead. Gan fod adroddiad llawn o dan hanes Cymry y dref nid af i fanylu ond dweud ei bod hi'n fraint i gael cwmni y Parchedig Robert Parry a'i ferch ddawnus a fydd yn dod atom ym barhaol cyn y Pasg. Cofier am y Cyfarfod Comisiynu ym Methel yn nechrau Mai.

Gwledd oedd gwrando ar y tad a'r ferch fach yn ein diddanu. Ar ddiwedd y noson fe gyflwynodd Llywydd y Noson, y Barchg. Glenys Wilkinson, dusw hardd o gennin Pedr i Anna am ein diddori.



*Parchg. Robert Parry a'i ferch Anna*

Yna, ar Nos Sul, Mawrth 3ydd, yn ôl yr arfer, cynhaliwyd Gwasanaeth Crefyddol i ddathlu Gŵyl Ddewi Sant, y cyfarfod yma eto dan nawdd Cymdeithas Cymry Birkenhead. Y pregethwr oedd y Parchg. John Barnett, West Kirby. Erbyn hyn mae'r Parchg. John Barnett yn adnabyddus iawn i ni yn Seion ac yn gyfaill da i'r Eglwys gan ei fod, bob amser, yn barod i gynorthwyo pan fydd angen.

Diwrnod stormus iawn oedd yr ail Sul a'r pregethwr, y Barchg. Nesta Mary Davies yn teithio yn y car o Abergele i Lerpwl yn y bore ac atom i yn Seion yn y pnawn. Ar ôl y wasanaeth roedd siwrna faith o'i blaen i Abergele ar gwynt yn rhuo wrth iddi gychwyn ar ei thaith gartref.

Diolchwn o galon am y rhai sydd yn dod atom o wahanol Henaduriaethau, yn aml o bell ffordd, fel y gallwn gael gwasanaeth yn Seion pob pnawn Sul.

'Roedd gan y Parchg. Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid siwrna hir, hefyd, ond 'roedd y tywydd yn fwy ffafriol a cawsom wasanaeth y Cymun Sanctaidd dan ei ofal. Dyma'r ail dro iddo ddod atom i bregethu.

Ar pedwerydd Sul o'r mis bu'r Parchg. Mark Morgan yn cynnal y gwasanaeth - taith fyrrach iddo ef ond fel fydd ein pregethwr olaf o'r mis, yn teithio yr holl ffordd o Llanfairpwll, Ynys Môn. Dyma'r tro cyntaf i ni groesawu Mr Aled Job i Seion ac edrychwn ymlaen i'w gyfarfod a chlywed ei neges.

Erbyn hyn 'rydym wedi cyrraedd y Sul olaf o'r chwarter cyntaf o 2019 a hefyd wedi cyrraedd dechrau'r gwanwyn a chymaint i edrych ymlaen ato ym myd Natur a hefyd yn ein calendr ni fel eglwysi Dosbarth Lerpwl.

# Cymdeithas Cymry Manceinion a'r Cylch

## Dathliadau Gŵyl Ddewi

• ***Cyngerdd*** – Cawsom wledd yn y cyngerdd ar ddiwedd mis Chwefror. Roedd y Royal Northern College yn weddol llawn ac awyrgylch braf yno gyda chantorion sydd yn adnabyddus i ni erbyn hyn am fod Emyr Owen wedi canu yn ei lais baritôn hyfryd ac Iwan Roberts wedi cyfeilio ar y piano yn wych iddo. Yn amlwg roedd y ddau yn gyffyrddus yn ein plith ac roedd eu gwên yn gwneud lles i bawb. Clywsom hefyd delynores ifanc Angharad Huw o Ruthun a oedd yr un mor ddeniadol ac roedd y côr yn fendigedig yn rhoi detholiadau amrywiol a phleserus o ganeuon ar hyd y noson yn cynnwys rhai lleddf wrth gwrs am mai Cymry ydym! Er bod llawer o eitemau yn Gymraeg, roedd eraill mewn ieithoedd estron ac felly cawsom dro ar hyd y byd yn ein cyngerdd. Mwynheuodd pawb y noson am mai achlysur i gyfarfod â hen ffrindiau yw y cyngerdd a rhai wedi bod yn mynychu ers flynyddoedd maith; ond roeddem yn teimlo braidd yn drist fod y cyngerdd yn y Royal Northern yn debygol o ddod i ben yn y flwyddyn 2020. Mae llog y neuadd yn ddrud ac nid oes cynulleidfaoedd digonol i gael y cyllid angenrheidiol. Ond diolchwn i Elwyn Evans a'i griw am drefnu dros y blynyddoedd. Achlysur arbennig iawn.

• ***Cinio Gŵyl Ddewi:*** - Gwledd arall oedd yn ein disgwyl ar Ddydd Sadwrn 2 Mawrth yng Nghapel Noddfa Oaker Avenue am 5 o'r gloch. Daeth agos i ddeugain ynghyd i fwynhau y noson, Cymry Manceinion ac eraill sydd yn ein cefnogi – y rhaglen oedd: cinio, galw'r siroedd ac araith, llwncdestun a noson lawen a barhaodd at ei gilydd am nifer o oriau ond adloniant ardderchog a gwir Cymraeg – o'r dechrau tan y diwedd - ac inni ganu 'Mae Hen Wlad fy Nhadau' wrth derfynu'r noson! Ms Shân Morris o Lanelwy oedd ein gwraig wadd a rhoddodd hithau sgwrs ddidorol ac ysgafn ar brofiadau ei bywyd, gan weld cysylltiad efo cyfarwyddyd Dewi Sant i ofalu am y pethau bychain – gwelodd Shân sut oedd pethau bychain wedi newid cwrs ei bywyd yn aml, ac roedd yr hanes yn ddifyr i bawb ohonom. Wedi clirio'r byrddau allan o'r ffordd,



***Rhai yn mwynhau y wledd***

cawsom noson lawen arbennig eto, gydag aelodau yn cymryd rhan fel arfer a grwp myfyrwyr o'r Coleg Cerdd ym Manceinion – pump o gantorion gyda lleisiau bendigedig ac eitemau amrywiol a gwych. Diolch yn fawr i bawb oedd wedi cyfrannu at y noson.

• ***Noson yr Aelwyd:*** Ar nos Sadwrn Mawrth y 9fed, roedd y capel dan ei sang i gefnogi côr yr efrydwyr Cymraeg sydd wedi sefydlu Aelwyd Manceinion eleni. Maent yn bwriadu cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac roedden nhw wedi gofyn i drefnu cyngerdd yng nghapel Noddfa Oaker Avenue ar gyfer ymarfer eu caneuon yn gyhoeddus a chasglu arian i logi bws i fynd i Gaerdydd os yn llwyddiannus yn y 'prelims*'! Roedd yn noson fendigedig eto, llawn o dalent a hwyl a theuluoedd y bobl ifainc,



***Araith y wraig wadd***



***Pump o gantorion dawnus o'r Coleg Cerdd***

**<u>Colofn y Beirdd</u>**

### Llyfr

*Cerbyd swynol yw llyfr – fel carped hud*
sy'n fy nghludo i rhywle ymhen draw'r byd;
ei glawr mawr yn gadarn, tudalennau yn frau,
unwaith ar agor ni allaf ei gau.
Uwchben y byd rwy'n teithio ymhell
dros llawer o wledydd, rhai'n wael a rhai'n well,
ond yr un ydyw'r stori i bawb yn y bôn,
'da ni'n byw ar y ddaear – yn cerdded 'run lôn.
'Da ni'n gweld ac yn teimlo, yn clywed 'run sŵn,
yn blasu, ogleuo ac yn canu'r un tiwn.
Pam felly mae angen drwgdybio pob un
sy'n wahanol i ni, boed yn ddynes neu'n ddyn,
yn Mwslim neu'n Hindu lle bynnag mae'n byw?
'Run peth da ni'n teimlo, 'run person yw Duw.

*Enfys Hughes Brynteg, Môn*
*(gynt o Trefebin).*

yn osgystal â ninnau aelodau'r capeli, wedi cael gwledd o gerddoriaeth o'r safon uchaf. Yn y seibiant roedd yr efrydwyr wedi trefnu lluniaeth ysgafn ac roedd lawer o sgwrsio a gwneud ffrindiau newydd. Diolch o galon iddynt a diolch hefyd am eu cyfraniad i fywyd y capel.

(* Roedden nhw yn llwyddiannus!)

• ***Cleifion:*** Mae Mrs Glenys Roberts gwraig Dr Bill Roberts wedi torri ei chlun ac yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac rydym yn cofio ati hi yn arw ac yn dymuno adferiad buan iddi hi. Glenys sy'n trefnu'n ffyddlon gymorth i'r di-do ers blynyddoedd yn ei ffordd ddistaw, diymhongar ei hun. Mae nifer o'r blaenoriaid a'r aelodau yn ymweld â Lois yng nghartref yr henaint yn Poynton. Mae ei hysbryd i'w weld yn ei llygaid sy'n pefrio wrth gweld Cymry yn dod. Cofiwn yn gyson am Nellie a Catherine hefyd, y ddwy yn falch o sgwrs yn Gymraeg ac yn cofio at bawb.



*Côr Aelwyd Manceinion o dan arweiniad Rhiannon Ashley.*

**YR ANGOR**
**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**
*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

# GŴYL DATHLU YR ANGOR YN DDEUGAIN OED

## (1979-2019)

**Penwythnos 20 a 21 Gorffennaf, 2019**
**yng Nghanolfan a Chapel Bethel, Heathfield Road / Auckland Road, Lerpwl**

## SADWRN, 20 GORFFENNAF 2019

Bydd yr adeilad yn cael ei agor am 10.00 o'r gloch bore Sadwrn a Sul.

**Sesiwn Cyntaf** (10.30 i 11.20) **Sgwrs gan Dylan Jones o'r BBC ar Gyfathrebu y Deugain Mlynedd Diwethaf.** Llywydd: Roderick Owen (*Trysorydd Yr Angor*)
11.20 - 11.55 – Toriad a chyfle i gael paned a sgwrs
**Ail Sesiwn** (11.55 i 1 o'r gloch). Llywydd: Elwyn Evans
Rhan gyntaf gan y Dr. D. Ben Rees, *'Profiadau y Golygydd o 1979 i 2019'* ac i ddilyn cyflwyniad power point gan Dr. John G. Williams, Cadeirydd *Yr Angor* ar luniau a chyflwyniadau y papur bro.
**Cinio** (1 hyd 2.15 o'r gloch) – Digon o ddewis o fewn can llath i'r Ganolfan.

**CYNGERDD Y PNAWN** o 2.30 i 4 o'r gloch
***Arweinydd: Y Parchedig Robert Parry.***
***Llywydd: Parchedig Mike McGurk, Archddiacon Lerpwl***
**Artistiaid:**
**Robin Huw Bowen, Capel Seion, Ceredigion (Telynor) a Côr Bara Brith o Ynys Môn.**
Pris tocyn am y bore a phnawn: £10. Gellir archebu tocynnau oddi wrth Beryl Williams (0151) 722 1092.

**Nos Sadwrn, 20 Gorffennaf yn Ystafell Fwyta, Clwb Golff Woolton, Lerpwl am 7.30 o'r gloch**
Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees. Siaradwr: **Dr. Huw Edwards, BBC, Llundain**
*Lawnsio'r gyfrol Gymraeg, copiau meddal £10, copiau caled £15, tudalennau 350 o leiaf.*
*Cyflwynir copi i'r Golygydd a gwahoddedigion gan Gadeirydd Yr Angor, Dr. John G. Williams.*
*Bwriedir llofnodi copïau ar derfyn y noson. Pris y cinio £25. Archebwch y tocynnau.*

## SUL, 21 GORFFENNAF 2019

**Oedfa'r Bore ym Methel, Heathfield Road am 10.30.**
**Darperir cinio am 12 o'r gloch cyn y Gymanfa.**
**Cymanfa Ganu am 2 o'r gloch** *(Bwriedir cael Côr ac Arweinydd o Gymru i'r Gymanfa).*
*Dewch yn llu i'r Ŵyl Unigryw Hon. Byddwch ar eich ennill. Trefnir yr Ŵyl gan Bwyllgor yr Angor mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Merswy.*

Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 8

*Myfyrdod*

# MADDEUANT A THRUGAREDD

Ers talwm roedd yn arferiad fod capeli yn cynnwys "CWRDD PREGETHU" a phregethwr o bell h.y. o'r ardal ac efallai yn un o'r "Hoelion Wyth". Yn ogystal roedd yn disgwyl i'r pregethwr roddi darlith ar ryw bwnc ond lled ysgafn!!! Cofiaf Parchedigion Morgan Mainwaring, T. M. Perkins, Philip Jones, Donald Soper, R.O.G. Williams, Tom Nefyn a llawer un arall. Heddiw? Bron dim – dim darlith fel y cyfryw. Rhannaf un gyda chwi.

Roedd y Parch R.O.G. Williams eisiau gwneud pregeth ar Faddeuant a Thrugaredd ac yn ceisio dirnad y gwahaniaeth ac er meddwl a meddwl doedd dim byd yn tycio. Roedd yn pregethu yng nghapel China Street, Llanidloes ac yn aros gyda un o'r aelodau oedd yn ferch gyfreithiwr. Yn yr ymgomio am un peth a'r llall fe ddangosodd y ferch copi o KING'S PARDON. Roedd John Roberts wedi ei ddedfrydu i farwolaeth am ddwyn defaid cymydog. Eitha peth oherwydd dyna'r peth gwaethaf gall unrhyw ddyn wneud ydy dwyn bywolieth dyn arall. Ta waeth, fe apeliwyd ar ran John Roberts. Fe ddaeth swyddog o Lundain gyda neges. Roedd wedi ei harwyddo gan y brenin ar y pryd Sior IV ac hefyd Syr Robert Peel a Wellington a'r dyfamiad fod y Brenin wedi estyn Pardwn i'r troseddwr.

Gallwn ddyfalu y llawenydd mawr ond erbyn gweld rhaid cofio "look for the small print" ac yn wir i chi roedd amod go llym. Roedd John Roberts i'w alltudio i New South Wales, Awstralia am weddill ei fywyd. Arbedwyd ef rhag y crocbren ond roedd yn rhaid wedi'r cyfan dreulio weddill ei oes mewn gwlad estron ac fel "adyn condemniedig ym mhen draw'r byd". Fel ddywedodd Robin Dinmael (chwedl ninnau) yn y ddarlith mai TRUGAREDD a gafodd y John Roberts hwnnw ac nid Maddeuant.

Nid anghofiaf y ddarlith, mae hi wedi selio yn fy meddwl. Wyddoch chi, mae yna ryw "rhagluniaeth ddistaw" yn cyffwrdd dyn fel ai amser ymlaen. Mae gan yr annwyl O. M. Lloyd gwpled –

> *Nid yw nef ond mynd yn ôl*
> *Hyd y mannau dymunol.*

Mae gennyf atgofion di-ri o gapeli Cymru – wedi pregethu mewn llawer yn y De a Gogledd ac wedi gwrando a gweddio mewn llawer o ddechrau oes ac wrth feddwl am ddarlith Robin Williams mae yna atgof yn dod yn ôl o pan yn y coleg a digwydd bod adre yn mynd i gapel Twrgwyn, Bangor i wrando ar Parch J. W. Jones, Conwy yn pregethu ar "Ond y mae gyda thi faddeuant" medd y Salmydd am yr Arglwydd. Sobreiddiodd y gynulleidfa â'r siars hon "Peidiwch chi ag edliw pechodau i bobol, rhag ofn bod y Brenin Mawr wedi'u maddeu nhw".

***ELWYN PARRY***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 9


**Cyflwyno:**

# GWYN THOMAS (1936-2016)

***gan Dr. Pat Williams, Allerton***

Un o'r llenorion Cymraeg mwyaf toreithiog ac amryddawn oedd Gwyn Thomas. Ganed ef yn Nhanygrisiau, Sir Feirionnydd, ardal oedd yn golygu llawer iddo, fel y datgela yn ei gerdd, 'Yma mae fy lle'. Ond roedd ganddo gariad at Gymru gyfan hefyd, fel y gwelir yn arbennig yn y penillion y comisiynnwyd ef, fel Bardd Cenedlaethol Cymru, i'w llunio, ar achlysur agor yr adeilad newydd ar ben Yr Wyddfa ac sydd bellach wedi eu naddu i'r creigiau ar wal allanol yr adeilad. Mae arddull y penillion hyn yn ddirodres ond yn mynegi'n effeithiol y neges glir y dylem warchod y lle gogoneddus hwn.

Gwelir amrywiaeth o themâu yn ei farddoniaeth – teyrngedau i'w gyfeillion, y natur ddynol, cyflwr cymdeithas a disgrifiadau o "giamocs ei blant". Yn ei gerdd 'Croesi Traeth' mae'n disgrifio gwibdaith deuluol i lan y môr a sylweddoli na ddaw'r eiliad hwnnw yn ei fywyd byth yn ei ôl. Mae'n cloi'r gerdd drwy ddyfynu hen ddihareb Rwsiaidd, "nid croesi cae yw byw". "Cywir", meddai'r bardd, "croesi *traeth* yw byw." Hynny yw, yn wahanol i gae, mae traeth yn newid yn gyson ac unwaith y daw'r llanw i mewn mae olion traed wedi'u dileu am byth. Roedd yn gyfarwydd â'i Feibl hefyd ac yn Annibynwr Cymraeg selog yn ninas Bangor. Defnyddiai'r adnodau o' r Ysgrythur i fynegi ei farn ar gymdeithas. Testun ei gerdd 'Ac Oblegid Eich Plant' (o Luc xxiii: 27-31) yw'r drasiedi o ladd plant bach yn ddamweiniol yn yr helyntion yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r gerdd yn gorffen trwy sôn am gynddaredd y dorf at "y rheini sy'n medru bwyta, / yn medru cysgu, yn medru byw / ar ôl lladd plant bach."




Er mai fel bardd yr adnabyddir Gwyn Thomas yn bennaf, roedd hefyd yn ysgolhaig, yn feirniad llenyddol, sgriptiwr ffilmiau ac yn awdur cyfrolau rhyddiaith. Fel ysgolhaig roedd ganddo'r ddawn i gyflwyno cysyniadau cymhleth mewn ffordd hawdd i'w deall fel yn ei gyfrol ar lenyddiaeth Gymraeg gynnar, *Y Traddodiad Barddol*. Mae hefyd wedi cynhyrchu cyfrolau ar y cyd ag eraill er mwyn cyflwyno llenyddiaeth Gymraeg i gynulleidfa ehangach, sef ei gyfrol *Gair yn ei Le,* sydd yn gyfuniad o luniau lleoedd gan y ffotograffydd Geraint Thomas ac ysgrifau gan Gwyn Thomas ar arwyddocâd llenyddol y lleoedd hyn. Mae hefyd wedi cydweithio â'r dylunwyr Kevin Crossley-Holland a Margaret Jones i gyflwyno fersiwn modern o'r Mabinogion ar gyfer plant.

Roedd ganddo hefyd synnwyr hiwmor sydd i'w weld yn ei gerddi ac yn ei weithiau rhyddiaith. Yn ei stori fer swrealaidd 'Wynston Dracula Dêfis' yn y gyfrol *Bronco*, mae'n sôn am ferch a redodd farathon o ogledd Cymru i Gaerdydd ond "cymerodd fwy o amser iddi ddod yn ôl nag a gymerodd i redeg yno, gan mai ar y trên y dychwelodd."

Pennaf amcan Gwyn Thomas oedd cyflwyno llenyddiaeth i bawb drwy ddefnyddio iaith ddealladwy a pheidio â dilorni dulliau newydd o gyfathrebu. Bathodd derm newydd - 'llunyddiaeth' - sef llenyddiaeth weladwy a chlywadwy. Gwelir enghraifft o hyn yn ei linellau ingol 'Mae gen i freuddwyd' sy'n rhan o'r gerdd deledu hir, *Cadwynau yn y Meddwl*, lle y talodd deyrnged i Martin Luther King. Yn sicr, mae Gwyn Thomas wedi ennill ei le fel un o lenorion pwysicaf y genedl.

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MAI 2019



| | |
|---|---|
| Mrs Sian Spink, Newton le Willow | £15.00 |
| Noson Grempoga, Cymdeithas Cymry Lerpwl | £85.00 |
| Mrs Ann Jones, Llanwrin | £25.00 |
| Er cof am Walter Rees Jones, Penbedw | £100.00 |
| Cymdeithas Cymru Lerpwl (Darlith Dr. Rees) | £50.00 |
| Rhodd Cymdeithas Cymry, Penbedw | £50.00 |
| **Cyfanswm** | **£325.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## Uffar o wariar, Warren



Llun: Undeb Rygbi Cymru

Ers cawsom wlad i'w chadw,
a honno'n hŷn na'u ffin 'nhw',
mur y co' fu'n marcio'i hiaith,
co' cenedl a'i ryc uniaith –
a sgarmes fu'i hanes hi,
un leinowt, tan eleni,
o fethiannau ciciau cam,
ael waedlyd, goliau adlam,
rhai'n galw ar ran y gelyn
am y bàs gennym bob un…
a'r ddoe rhydd o ddaear aeth
heddiw yn bêl gwleidyddiaeth.

Ond pan ddôi co'r Cymro i'r cae
co'r oesoedd oedd i'r crysau,
co' hirach na'r cyhyryn
i gad oer ein pymtheg dyn!

"Gymro, rhaid anghofio hyn –
gorau asgell, goresgyn –
a llwydd dy anghofrwydd di,
co' all anghofio colli."

Wedi'r hen drin, hyder wyt
a'r dweud sy'n gariad ydwyt,
ac i wlad, ti yw'r gwleidydd
sydd ynddi'n hyfforddi ffydd;
môr tawel o greu melys,
am y sgrym, Grand Slams i grys.
Ti'r seicoleg tactegol
rôi i ni ein gwair yn ôl,
y wlad sy'n anwadadwy
ar y maes sy'n Gymru a mwy.
I mi a'r tîm rwyt ti yn
uffar o wariar, Warren.

***KAREN OWEN***
***Mawrth 16, 2019***


Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 10

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Ar nos Wener Mawrth 1af bu Cymdeithas Cymry Lerpwl a Chymdeithas Lenyddol Bethel yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff Woolton. Bu i bawb fwynhau y bwyd a chafwyd anerchiad ardderchog gan Mr. Aled Lewis Evans, Wrecsam. Diolch i Mrs. Gwenfyl Bain a Mrs. Lillian Coulthard am drefnu'r noson.

Y nos Fawrth ganlynol buom yng nghartref Dr. Pat Williams yn bwyta crempogau ac yfed 'punch'. Cafwyd cyfle i sgwrsio a mwynhau y danteithion. Diolch i Pat am ei chroeso. Gwnaed elw tuag at Apêl 'Yr Angor'.

Ar Fawrth 12fed cawsom gwmni Michael, ŵyr y Llywydd gyda Emily, cariad Michael, a bu'r ddau ar ymweliad â Auschwitz pan oeddynt yn aros yn Cracow. Roedd Auschwitz yn garchar dienyddio gan y Natsiaid rhwng 1940 a 1945. Yr oedd gan Michael ac Emily lawer o sleidiau i'w dangos a'r sleid gyntaf a gawsom oedd y geiriau uwch ben y fynedfa i Auschwitz sef "Arbeit macht Frei" ('Mae gwaith yn eich rhyddhau.') Gwelsom y mynyddoedd o esgidiau, gwallt, offer coginio a sbectols oedd wedi cael eu cymeryd oddiar y carcharion. Gwelsom hefyd y siamberi nwy lle lladdwyd chwech i wyth mil o Iddewon bob diwrnod. Mae pob peth wedi cael eu gadael yr un fath ag yr oedd pan gaeuwyd y carchar er bod rhai adeiladau wedi cael eu dymchwel. Mae'r lle yn hollol ddistaw ac ni chlywir sŵn yr un aderyn yn canu yno. Gorffennwyd trwy ddangos dyfyniad gan George Santayana sydd ar wal un o'r adeiladau 'Those who do not remember the past are condemned to repeat it.' Mae hanes Auschwitz yn dangos creulondeb dyn at ei gyd-ddyn ac mae'n bwysig i ni beidio ag anghofio yr hanes.



*Roderick a'i deulu. Roeddynt sôn am Aushwitz yng Nghymdeithas Cymry Lerpwl*



*Wena Evans - Llywydd y Cwis*



*Devida Broadbent - Cwisfeistr*



*Beryl a Pat Williams yn crempoga*

Yr wythnos ganlynol cawsom y cwis blynyddol o dan ofal Devida Broadbent. Wedi noson o grafu pen Tîm y Dynion oedd y buddugwyr! Diolch i Devida am ei holl waith.

I orffen y mis cawsom gwmni y Parchedig Ddr. D. Ben Rees yn sôn am Ceiriog, un o'r beirdd mwyaf adnabyddus ymysg y Cymry. Ganwyd John Ceiriog Hughes yn 1832 ar fferm Pen-y-bryn yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Roedd yn un o wyth o blant Richie Hughes a Phoebe. Roedd ei fam yn gweithio fel bydwraig yn yr ardal ac yn defnyddio llysiau i wneud moddion er mwyn gwella pobl. Dechreuodd Ceiriog farddoni tra yn yn ysgol. Wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio adref ar y fferm am ychydig o fisoedd cyn cael swydd cysodydd yng Nghroesoswallt. Wedyn gadawodd Llanarmon a mynd i fyw ym Manceinion. Cafodd swydd mewn siop groser perthynas iddo yn Oxford Road cyn cael

Rhifyn Mai 2019.qxp_Layout 1 29/05/2019 13:58 Page 11

swydd fel clerc mewn swyddfa rheilffordd. Tra ym Manceinion daeth o dan ddylanwad Creuddynfab a oedd yn ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas Eisteddfod Genedlaethol. Daeth y ddau yn gyfeillion mawr. Credai Ceiriog y dyla barddoniaeth fod yn ddealladwy, yn gofiadwy ac yn ganiadwy. Cafodd ei feirniadu yn drwm gan feirniaid llenyddol am fod yn rhy sentimental ond credai fod angen cynghanedd i gael barddoniaeth da. Wedi cyhoeddi 'Brad y Llyfrau Gleision' bu Ceiriog yn ysgrifennu barddoniaeth oedd yn clodfori Cymru a ennillodd yn Eisteddfod Llangollen 1858. Daeth yn Eisteddfodwr mawr yn cystadlu ac yn feirniad ac roedd yn ysgrifennu barddoniaeth mewn iaith ddealladwy. Mae rhai o'i gerddi yn aros yn boblogaidd hyd heddiw e.e. Nant y Mynydd, Dafydd y Garreg Wen a Cherddi Alun Mabon sydd yn cynnwys llinellau am genedl y Cymry yn parhau am amser hir -

*'Aros mae mynyddau mawr*
*Rhuo trostynt mae y gwynt.'*

Priododd yn 1861 gyda Annie, merch o ardal Croesoswallt a ganwyd iddynt bedwar o blant. Hiraethai Ceiriog am



***Ceiriog***

Gymru a dychwelodd yn ôl yn Orsafeistr y Cambrian Railway yn Llanidloes. Bu farw ar Ebrill 23ain 1887 yn 54 blwydd oed a chladdwyd ef yn Llanwnog. Dywedodd O. M. Edwards fod Ceiriog wedi gwneud mwy dros farddoniaeth Cymru na holl gywyddwyr a chynganeddwyr y canrifoedd. Ar ei garreg fedd mae'r englyn isod a oedd ef wedi ei 'hysgrifennu cyn ei farwolaeth.

*Carodd eiriau cerddorol, - carodd feirdd,*
*Carodd fyw 'n naturiol;*
*Carodd gerdd yn angerddol,*
*Dyma'i fedd, - a dim lol.*

**Cysylltwch â'r**

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**dbenrees@gmail.com**

# CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Nid pob blwyddyn y gellid dathlu dydd Gŵyl Ddewi ar Fawrth laf gan ein bod yn cyfarfod gyda'n gilydd ar nos Wener, felly roedd hon yn flwyddyn arbennig. Daeth nifer da o aelodau a ffrindau i Westy Grove House, Wallasey i fwynhau cinio da, cymdeithasu, a gwrando ar adloniant hyfryd a diddorol. Rhoddodd y Parch. Glenys Wilkinson, llywydd y noson groeso cynnes a sylwadau ar fywyd Dewi Sant, a'i gyfraniad unigryw i'n hiaith a'n crefydd. Ein gwestai eleni oedd y Parch. Robert Parry, Wrecam a'i ferch Anna. Cawsom ganeuon traddodiadol gan Anna sy'n ymarfer a gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae ganddi lais swynol a dymunwn pob llwyddiant iddi. Gan ei thad clywsom hanesion, atgofion, a myfrdodau am fywyd, cefn gwlad, profiadau ac atgofion. Y gadwyn gyswllt rhyngddynt oedd ei hoff englynion a ddewisodd rhai rhai addas a meddylgar, yn ddoniol ac yn ddwys.

Mrs Menna Kearney gynigiodd ein diolch calon, i'r Parch Robert Parry ac Anna, y Barch Glenys Wilkinson am ei chyfraniad, i Iola am baratoi a threfnu'r noson a llunio'r fwydlen hardd, ac i staff y gwesty, am y bwyd da, y gwasanaeth gofalus a'u croeso cynnes arferol.

Mae'n draddodiad ym Mhenbedw i ddathlu bywyd ein nawdd sant, gyda gwasanaeth crefyddol ar nos Sul wedi'r cinio. Eleni, roedd yn bleser croesawu'r Parch John Barnet atom i arwain ein gwasanaeth, yn arbennig felly wedi ei absenoldeb drwy waeledd, y llynedd. Yn ei sylwadau agoriadol cyfeiriodd ein pregethwr at ddylanwad Dewi i'n hiaith ac i'n crefydd. Cerddodd ein gwlad yn cyhoeddi neges Crist. Yn yr oes faterol hon, dyna'r efengyl sydd arnom angen. Yn ei bregeth, defnyddiodd adnodau o broffwydoliaeth Jerermiah, ac efengyl Marc, yn arbennig adnod 5 o'r bennod gyntaf i gyfleu fod "teyrnas Duw yn nesau". Gyda dyfodiad Crist i'r byd mae wedi ei gyflawni – nid mewn rhyw ddyfodol cymylog, ond yma yn y byd tra byddwn byw. Trwy air a gweithred, dengys Iesu fod y deyrnas yn agos, a'r ddangosiad mwyaf oedd ar Galfaria, ac ar fore'r Pasg. Fel Cristnogion mae'n gyfrifoldeb arnon ninnau i fod yn dystion o deyrnas Duw yn ein bywyd ac yn ein tystiolaeth o waith Duw yn ein calonnau. Dim ond un peth all wella y byd materol hunanol sydd o'n cwmpas, sef derbyn brenhiniaeth Duw a Christ, darganfod ynddo Ef amcan a phwrpas ein bywyd ac arwain eraill i'w oleuni Ef.

"Gwyn fyd y gwlad mae'r Arglwydd yn Dduw iddi".

Ein gwestai ar Mawrth 18fed oedd Mr Rob Parry gyda sgwrs ar ei waith yn y Swyddfa Cofrestru Cenedlaethol yn Southport, dan y teitl "O ddysgwr i ddehonglwr'. Ar yr olwg cyntaf, anodd oedd deall pam roedd gŵr ifanc, a anwyd, fagwyd, ac a addysgwyd yn Lerpwl, heb ddim cysylltiad cefndir na theulu Cymraeg, wedi meddwl dysgu'r iaith. Ym mhen amser daeth ei wybodaeth o'r iaith yn bwysig yn ei waith. Fel archifydd, dechreuodd archwilio ei deulu a darganfod hen ewythr o'r enw Ted Parry, chwarewr pêl-droed i Lerpwl a Chymru (pum gwaith) yn 1892. Dyna ddechrau ar ei yrfa at ddod yn hyddysg yn yr iaith Gymraeg. Ar ôl deng mlynedd clywsom ei lwyddiant mewn iaith cywir, huawdl ac ystwyth. Cyfaddefodd na siaradodd o flaen cynulleidfa mewn unrhyw iaith.

Yn fuan iawn roedd yn hollol gartrefol a chyfforddus gyda ni. Clywsom hanes diddorol am gefndir gwaith cofrestru genedigaethau, priodasau, a marwolaethau drwy'r wlad.

Thomas Cromwell gafodd y syniad o gofrestru'r genedl yn 1536, gan rhoi'r gyfrifoldeb i offeiriaid. Roedd pethau yn anrhefnus iawn hyd 1645 pan geisodd Oliver Cromwell rhoi y gwaith yn nwylaw gwasanaeth sifil. Nid oedd gorfodaeth i gofrestru hyd 1875 pan sefydlwyd y gorfforaeth sy'n dal hyd heddiw. Ond nid oedd yn bosib cofrestru yn Gymraeg hyd 1970, a hynny, hyd heddiw ond yn ddwyieithog. Roedd cofnodion Cymraeg yn denau iawn. Gan mai offeiriaid oedd wedi gofalu amdanynt, nid oedd gofyn i gapeli anghydffurfiol gadw unrhyw rhestr.

Diddorol oedd dilyn cwrs Rob i fod yn rhugl yn yr iaith a rhoddodd gynghorion doeth i'n dysgwyr ni – daliwch ati ac na phoenwch am wallau. Bellach mae'n defnyddio'r iaith yn ei waith yn aml iawn, ac yn teithio yng Nghymru i ddatrys problemau. Mae llawer o broblemau yn codi yn y dyddiau hyn o briodasau un rhyw, trawsrhywiol, partneriaeth sifil a.y.b. "Mae llawer tro ar fyd cofrestru".

Iola Edwards oedd llywydd y noson, a diolchodd am sgwrs diddorol ac addysgiadol gan siaradwr hoffus a chartrefol. Cyfeiriodd Iola at lwyddiant ein parti dysgwyr, dan ofal Neil Wyn Jones, am ei llwyddiant yn Eisteddfod y Dysgwyr yn Wrecsam. Cawsant y wobr gyntaf am ei sgets ac edrychwn ymlaen am ei weld. Beryl van Beck oedd ein cyfeilydd, a Llwynwen a Beti ofalodd am y te.

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# *GWLEDD YN WOOLTON AR NOSON GŴYL DDEWI*



*Cinio Gŵyl Dewi*



*Aled Lewis Evans yn diddori y dyrfa*



*Y Cadeirydd yn gwneud y Gŵr Gwadd ac eraill i wenu*



*Wena Evans a Dr. Mallt Care yn llawenhau*



*Meinwen a D. Ben Rees, Nan H. Parry, Aled Lewis Evans, Norma a Roderick Owen*



*Ben Hughes, Mike Farnworth a Devida Broadbent yn diolch am y Nawddsant*